

Adran Tai a Diogelur Cyhoedd

Datganiad polisi enghreifftiol ar ddiogelwch cadw, trin, defnyddio, dal a chael gwared ar Disclosures a gwybodaeth Disclosure

Egwyddorion cyffredinol

Fel sefydliad sy'n defnyddio gwasanaeth Disclosure y Swyddfa Cofnodion Troseddol (CRB) i asesu addasrwydd ymgeiswyr am swyddi cyfrifol, mae Adran Trwyddedu Cyngor Wrecsam yn cydymffurfio'n llwyr â Chod Ymarfer y CRB ynglŷn â thrin, defnyddio, storio, cadw a chael gwared â Disclosures a gwybodaeth Disclosure yn gywir. Mae'n cydymffurfio'n llawn â'i ymrwymïadau o dan y Ddeddf Diogelu Data a phob deddfwriaeth berthnasol arall ynglŷn â thrin, defnyddio, storio, cadw a chael gwared â gwybodaeth Disclosure yn ddiogel. Mae ganddo hefyd bolisi ysgrifenedig ar y materion hyn, sydd ar gael i unrhyw un sydd am ei weld ac sy'n gofyn am hyn.

Storio a Hygyrchedd

Ni chaiff gwybodaeth Disclosure byth ei chadw ar ffeil bersonél ymgeisydd, ond caiff ei chadw ar wahân mewn modd diogel, mewn cynhwysydd anghludadwy â chlo, ac mae rheolaeth lem ar y rhai fydd yn cael ei gweld, gan gyfyngu'r caniatâd hwn i'r rhai sydd â hawl i'w gweld fel rhan o'u dyletswyddau.

Trin a Thrafod

Yn unol ag Adran 124 Deddf yr Heddlu 1997, ni chaiff gwybodaeth Disclosure ei throsglwyddo ond i'r rheini sydd â'r hawl i'w gweld fel rhan o'u dyletswyddau. Rydym yn cadw cofnod o bawb sydd wedi derbyn Disclosures neu wybodaeth Disclosure, ac rydym yn cydnabod ei bod yn **dramgwydd troseddol** rhoi'r wybodaeth hon i unrhyw un nad oes ganddo/ganddi'r hawl i'w gweld.

Defnyddio

Ni chaiff gwybodaeth Disclosure ei defnyddio ond at y diben penodol y gofynnwyd amdani ar ei gyfer, a hynny dim ond ar ôl cael caniatâd yr ymgeisydd i'w chael at y diben hwn.

Cadw

Unwaith bod penderfyniad recriwtio (neu benderfyniad perthnasol arall) wedi cael ei wneud, nid ydym yn cadw gwybodaeth Disclosure am gyfnod hwy nag sydd ei angen. Fel arfer, mae hwn yn gyfnod o hyd at 6 mis, i ganiatáu digon o amser i ystyried a datrys unrhyw anghydfodau neu gwynion. Os y'i hystyrir yn angenrheidiol cadw gwybodaeth Disclosure am gyfnod hwy na chwe mis, dan amgylchiadau eithriadol iawn, byddwn yn ymgynghori â'r CRB ynglŷn â hyn ac yn ystyried yn llawn hawliau diogelu data a hawliau dynol rhywun sy'n destun Disclosure cyn gwneud hyn. Trwy gydol yr amser hwn, byddwn yn parhau'r amodau arferol ynglŷn â chadw'r wybodaeth yn ddiogel a rheoli pwy fydd yn cael ei gweld.

Cael gwared

Unwaith y bydd y cyfnod cadw wedi dod i ben, byddwn yn sicrhau bod unrhyw wybodaeth Disclosure yn cael ei dinistrio mewn modd diogel, h.y. trwy ei rhwygo yn gareiau, ei mathru neu ei llosgi. Tra bod gwybodaeth Disclosure yn aros am gael ei dinistrio, ni chaiff ei chadw mewn unrhyw gynhwysydd nad yw'n ddiogel (e.e. bin ysbwriel neu sach gwastraff cyfrinachol). Ni fyddwn yn cadw unrhyw lungopi na delwedd arall o'r Disclosure nac unrhyw gopi neu gynrychioliad o gynnwys Disclosure. Fodd bynnag, serch yr uchod, mae'n bosibl inni gadw cofnod o ddyddiad y cyhoeddwyd Disclosure, enw'r gwrthrych, natur y Disclosure y ceisiwyd

amdano, y swydd y gwnaed cais am Disclosure ar ei chyfer, cyfeirnod unigryw y Disclosure a manylion y penderfyniad recriwtio.

Gweithredu fel Corff Cysgodol

Cyn gweithredu fel Corff Cysgodol (sef corff sy'n cydlofnodi ceisiadau ac sy'n derbyn gwybodaeth Disclosure ar ran cyflogwyr neu sefydliadau recriwtio eraill), byddwn yn cymryd pob cam rhesymol i sicrhau y gall y cyrff hyn gydymffurfio'n llwyr â Chod Ymarfer y CRB. Byddwn hefyd yn cymryd pob cam rhesymol i'n bodloni ein hunain y byddant hwy yn trin, defnyddio, storio, cadw a chael gwared â gwybodaeth Disclosure yn gyfan gwbl yn unol â Chod y CRB ac yn gwbl unol â'r polisi hwn. Byddwn hefyd yn sicrhau bod polisi ysgrifenedig o'r fath gan unrhyw gorff neu unigolyn sy'n gofyn inni gydlofnodi ceisiadau Disclosure ar ei ran a, lle bo angen, byddwn yn darparu polisi enghreifftiol i'r corff neu'r unigolyn hwn ei ddefnyddio neu'i addasu at y diben hwn.